



IS-BWYLLGOR LLYWODRAETHU AC ARCHWILIO

15 Hydref 2026

TEITL: Datganiad Llywodraethu Blynnyddol 2025/26 a Chynllun Gwella Llywodraethu 2026/27

AWDUR: Mark Watkins, Swyddog Monitro

1. PWRPAS YR ADRODDIAD

- 1.1. Cyflwyno Datganiad Llywodraethu Blynnyddol 2025/26, a gymeradwywyd gan y Cyd-bwyllgor Corfforedig ar 25 Medi 2026, i'w adolygu gan yr Is-bwyllgor Llywodraethu ac Archwilio a sefydlu goruchwyliaeth barhaus yr Is-bwyllgor o'r Cynllun Gwella Llywodraethu ar gyfer 2026/27.

2. Y PENDERFYNIAD A GEISIR

- 2.1. Bod yr Is-bwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn nodi bod y Cyd-bwyllgor Corfforedig wedi cymeradwyo'r Datganiad Llywodraethu Blynnyddol 2025/26 ar 25 Medi 2026.
- 2.2. Bod yr Is-bwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn cytuno i oruchwyllo cyflawni'r Cynllun Gwella Llywodraethu yn ystod 2026/27.
- 2.3. Bod unrhyw argymhellion materol sy'n deillio o adolygiad yr Is-bwyllgor yn cael eu hadrodd i'r Cyd-bwyllgor Corfforedig fel y bo'n briodol.

3. Y RHESWM AM Y PENDERFYNIAD

- 3.1. Mae gan yr Is-bwyllgor Llywodraethu ac Archwilio rôl sicrwydd wrth adolygu ac asesu trefniadau rheoli risg, rheolaeth fewnol a llywodraethu corfforaethol y CBC ac wrth lunio adroddiadau ac argymhellion ar eu digonolrwydd a'u heffeithiolrwydd.
- 3.2. Roedd y Datganiad Llywodraethu Blynnyddol drafft wedi'i raglennu ar gyfer cyfarfod yr Is-bwyllgor ar 15 Medi 2026. Gan na chynhaliwyd y cyfarfod hwnnw, mae'r cyfarfod hwn sydd wedi'i aildrefnu yn rhoi'r cyfle cynharaf i'r Is-bwyllgor adolygu'r Datganiad a gymeradwywyd a bwrw ymlaen gyda'i rôl sicrwydd mewn perthynas â'r camau gwella.

4. CEFNDIR AC YSTYRIAETHAU PERTHNASOL

- 4.1. Mae Rheoliad 5 o Reoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014 (fel y'u diwygiwyd) yn ei gwneud yn ofynnol i'r CBC gynnal system gadarn o reolaeth fewnol, adolygu ei heffeithiolrwydd o leiaf bob blwyddyn, ystyried canfyddiadau'r adolygiad hwnnw a chymeradwyo datganiad ar reolaeth fewnol. Y Datganiad Llywodraethu Blynnyddol yw'r modd y mae'r CBC yn cofnodi'r adolygiad hwnnw a'i gasgliad sicrwydd llywodraethu cyffredinol.
- 4.2. Mae'r Datganiad wedi'i baratoi gan ystyried Fframwaith Cyflawni Llywodraethu Da mewn Llywodraeth Leol (Delivering Good Governance in Local Government) CIPFA/SOLACE. Roedd yr

adolygiad yn ystyried fframwaith llywodraethu ehangach y CBC, gan gynnwys trefniadau cyfansoddiadol a gwneud penderfyniadau, llywodraethu moesegol, rheolaeth ariannol, risg a pherfformiad, tryloywder, gallu sefydliadol a sicrwydd mewnol ac allanol.

- 4.3. Blwyddyn 2025/26 oedd y flwyddyn ariannol lawn gyntaf ar ôl trosglwyddo cyfrifoldebau Cynllun Twf Gogledd Cymru, ynghyd â staffio, adnoddau, cyfrifoldebau ariannol a threfniadau llywodraethu cysylltiedig, i'r CBC. Felly, ystyriodd yr adolygiad blynyddol gydymffurfiaeth â'r fframwaith llywodraethu ac i ba raddau y mae'r trefniadau estynedig wedi'u hymgorffori.
- 4.4. Mae'r Datganiad a gymeradwywyd yn dod i'r casgliad bod fframwaith llywodraethu'r CBC wedi darparu sail resymol ar gyfer cyflawni ei swyddogaethau yn gyfreithlon, atebol ac effeithiol yn ystod 2025/26. Mae hefyd yn nodi nifer o feysydd lle mae angen datblygu, ffurfioli neu ymgorffori trefniadau ymhellach. Mae'r rhain wedi'u cofnodi yn y Cynllun Gwella Llywodraethu.
- 4.5. Gan fod y Datganiad eisoes wedi'i gymeradwyo gan y Cyd-bwyllgor Corfforedig, ni ofynnir i'r Is-bwyllgor ei gymeradwyo'n ôl-weithredol. Ei rôl yw adolygu'r casgliadau, gwneud sylwadau ar y camau gwella a darparu sicrwydd parhaus ynghylch eu cyflawni.

5. CYNLLUN GWELLA LLYWODRAETHU 2026/27

- 5.1. Mae'r Cynllun Gwella Llywodraethu yn dwyn ynghyd y prif gamau gweithredu sy'n deillio o'r adolygiad blynyddol. Mae'r prif themâu wedi'u crynhoi isod; mae'r camau gweithredu llawn, perchnogaeth a dyddiadau targed wedi'u nodi yn y Datganiad a gymeradwywyd yn Atodiad 1.
- 5.2. Rheoli risg corfforaethol - cwblhau ac ymgorffori trefniadau rheoli risg ar draws y CBC a sicrhau cysylltiadau clir rhwng risg corfforaethol, gweithredol, rhaglenni a phrosiectau.
- 5.3. Cyfansoddiad a gwneud penderfyniadau - parhau i adolygu'r Cyfansoddiad, dirprwyaethau, rheolau gweithdrefn, trefniadau blaengynllunio a chyhoeddi fel eu bod yn adlewyrchu model gweithredu cyfredol y CBC.
- 5.4. Llywodraethu democrataidd a moesegol - cwblhau ac ymgorffori'r craffu, y Safonau a chefnogi trefniadau ymddygiad a llywodraethu sy'n ofynnol ar gyfer y CBC.
- 5.5. Capasiti ac atebolrwydd corfforaethol - cryfhau trefniadau gwasanaeth a letyir a lefel gwasanaeth, gwytnwch sefydliadol a'r farn gorfforaethol am berfformiad ac eithriadau materol.
- 5.6. Sicrwydd a dilyniant - cryfhau gwytnwch yr Is-bwyllgor hwn a chynnal olrhain camau gweithredu Archwilio Mewnol, Archwilio Cymru a'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol.
- 5.7. Cynigir adrodd am gynnydd trwy olrhain cryno yn seiliedig ar eithriadau sy'n dangos statws pob gweithred, tystiolaeth o gwblhau, unrhyw lithriad a materion sydd angen eu huwchgyfeirio. Bydd hyn yn caniatáu i'r Is-bwyllgor gynnal goruchwyliaeth sicrwydd heb ddyblygu rheolaeth weithredol.

6. GOBLYGIADAU ARIANNOL

- 6.1. Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol uniongyrchol sy'n deillio o adolygiad yr Is-bwyllgor o'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol nac o'r trefniadau monitro arfaethedig. Bydd unrhyw oblygiadau adnoddau sy'n deillio o gamau gwella unigol yn cael eu hystyried trwy'r prosesau cyllidebol a gwneud penderfyniadau perthnasol.

7. GOBLYGIADAU CYFREITHIOL

- 7.1. Mae'r gofynion cyfreithiol sy'n ymwneud â'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol yn deillio'n bennaf o Reoliad 5 o Reoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014 (fel y'u diwygiwyd). Adlewyrchir rôl sicrwydd yr Is-bwyllgor yn nhrefniadau cyfansoddiadol a Chylch Gorchwyl y CBC.
- 7.2. Cymeradwyodd y Cyd-bwyllgor Corfforedig y Datganiad Llywodraethu Blynyddol ar 25 Medi 2026 yn dilyn gohirio cyfarfod yr Is-bwyllgor ar 15 Medi oherwydd diffyg cworwm. Nid yw'r adroddiad presennol yn ailagor y penderfyniad cymeradwyo hwnnw; mae'n rhoi'r cyfle arfaethedig i'r Is-bwyllgor adolygu a herio'r Datganiad ac i oruchwyllo cyflawni'r camau gwella.

8. ASESIADAU EFFAITH

- 8.1. Nid oes angen asesiad effaith integredig ar wahân ar gyfer yr adroddiad hwn, sy'n ymwneud ag adolygu a monitro datganiad llywodraethu a gymeradwywyd. Bydd unrhyw newidiadau sylweddol i bolisi neu wasanaeth sy'n deillio o gamau gwella unigol yn destun yr asesiad priodol trwy'r broses benderfynu berthnasol.

ATODIADAU:

Atodiad 1: Datganiad Llywodraethu Blynyddol 2025/26 (a gymeradwywyd gan Gyd-bwyllgor Corfforedig y Gogledd ar 25 Medi 2026)

YMATEB Y SWYDDOGION STATUDOL:

i. Swyddog Monitro:

"O safbwynt cyfreithiol a llywodraethu, mae'r dull arfaethedig yn briodol. Mae'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol a gymeradwywyd bellach yn cael ei gyflwyno i'r Is-bwyllgor i'w adolygu ac ar gyfer goruchwyllo sicrwydd parhaus o'r Cynllun Gwella Llywodraethu. Dylid adrodd unrhyw argymhellion materol i'r Cyd-bwyllgor Corfforedig fel y bo'n briodol."

ii. Swyddog Cyllid Statudol:

"Rwy'n fodlon bod cynnwys y Datganiad Llywodraethu Blynyddol yn adlewyrchiad teg o drefniadau llywodraethu a gweithgareddau perthnasol y Cyd-bwyllgor Corfforaethol yn 2025/26, a bod y datganiad yn bodloni gofynion y Rheoliadau Cyfrifyddu ac Archwilio i baratoi datganiad o reolaeth fewnol."